TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012-2013

Tabl Cynnwys

Adrannau	**Tudalen**
Rhagair gan Lywydd y Tribiwnlys – Carol Cobert	2
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	3
1. Prif Swyddogaethau Tribiwnlys Prisio Cymru	4
2. Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prisio Cymru	5
3. Fframwaith Rheoli Tribiwnlys Prisio Cymru	8
4. Strwythur Staff Tribiwnlys Prisio Cymru	10
5. Aelodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru	12
6. Llwyth gwaith	14
7. Cwynion	16
8. Ystad Tribiwnlys Prisio Cymru	17
9. Technoleg Gwybodaeth	19
10. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prisio Cymru	20
11. Hyfforddiant a Datblygiad	22
12. Apeliadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	23

Atodiadau

A	Dadansoddiad aelodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru
B-1	Ystadegau Llwyth Gwaith 2012/2013
B-2	Ystadegau Llwyth Gwaith 2012/2013 – Dadansoddi'r Mathau Amrywiol
C	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2012/2013

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Croeso i Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Prisio Cymru 2012-13.

Yn dilyn ethol aelodau i'r Cyngor Llywodraethu ym mis Mai 2012, yn unol â'r drefn etholiadau bob dwy flynedd, cefais fy ethol yn Llywydd gan ddilyn yn ôl troed John Owens sydd wedi gwasanaethu fel Llywydd am nifer o flynyddoedd. Arweiniodd John Owens y Cyngor Llywodraethu wrth ddatblygu Tribiwnlys Prisio Cymru yn dilyn newidiadau sylfaenol i'w strwythur, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo am yr holl gyngor a chymorth a roddodd i mi. Etholwyd Cyngor Llywodraethu newydd ym mis Mehefin/Gorffennaf 2012, yn cynnwys Cynrychiolydd Rhanbarthol o bob un o'r pedwar rhanbarth, ynghyd ag aelod Cyngor Llywodraethu wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd y Cyngor Llywodraethu a'i is-bwyllgorau wedi sicrhau bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn effeithlon a phroffesiynol.

Penderfynodd Simon Hill, ar ôl cyfnod pellach o ddwy flynedd ar secondiad fel Prif Weithredwr, nad oedd yn dymuno gwneud gwaith y Prif Weithredwr ac aeth yn ôl i fod yn Glerc amser llawn Rhanbarth Dwyrain Cymru. Yn dilyn proses cyfweliad agored penododd y Cyngor Llywodraethu Andrew Shipsides yn Brif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru a chanddo brofiad gwerthfawr o'r Gwasanaeth Tribiwnlys ar ôl gwasanaethu yn y Gwasanaeth Tribiwnlys yn Lloegr yn flaenorol. Rwy'n gwerthfawrogi gwaith Simon Hill a wnaeth sicrhau trosglwyddo'r cyfrifoldebau rheoli yn llyfn a didrafferth.

Bu'n flwyddyn brysur i Dribiwnlys Prisio Cymru yn dilyn y cyhoeddiad y byddai'r Tribiwnlys yn ymdrin ag Apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Golygodd hyn bod angen rhaglen hyfforddiant ddwys a chyflogwyd arbenigwyr allanol i ddarparu'r hyfforddiant i staff ac aelodau i sicrhau bod pawb yn meddu ar wybodaeth i ddeall yr apeliadau dan yr awdurdodaeth newydd. Yn ychwanegol trefnwyd rhaglen strwythuredig o hyfforddiant barhaus gan y Pwyllgor Hyfforddiant Staff ac Aelodau, yn cynnwys digwyddiadau wedi eu teilwra i ateb anghenion cadeiryddion ac aelodau. Parhaodd uwch swyddogion i gyfarfod yn rheolaidd i gydlynu a goruchwylio prosiectau gweinyddol a sicrhau cysondeb ledled Tribiwnlys Prisio Cymru.

I gloi, hoffwn ddiolch o galon i Simon Hill, Andrew Shipsides, Clercod Rhanbarthol a holl aelodau a staff y Tribiwnlys sydd wedi cyfrannu ar y cyd tuag at y gwasanaeth effeithiol ac effeithlon a ddarparwyd gan Dribiwnlys Prisio Cymru yn ystod y flwyddyn brysur hon.

Carol Cobert
Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf ar waith Tribiwnlys Prisio Cymru. Mae'n cwmpasu'r flwyddyn o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013.

Rwy'n hynod o ddyledus i'm rhagflaenydd, Simon Hill, am ei ymroddiad a'i sgiliau yn goruchwylio gwaith Tribiwnlys Prisio Cymru trwy gydol mwyafrif y flwyddyn hon. Rwyf hefyd wedi fy nghyfoethogi'n fawr gan y cyngor a'r wybodaeth a drosglwyddwyd ganddo, wrth iddo gamu yn ôl ar sail amser llawn i'r swydd y mae wedi'i chyfuno â swydd y Prif Weithredwr am y pedair blynedd ddiwethaf – sef Clerc Rhanbarthol Dwyrain Cymru, Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r gwaith y bu ef yn ymwneud ag ef ag, a wnaeth ag awch a pharodrwydd.

Bu'n flwyddyn anarferol a heriol o ran bod llawer o sylw wedi'i roi i effaith ehangu awdurdodaeth y Tribiwnlys. O 1 Ebrill 2013 y Tribiwnlys fydd y cyfrwng i drethdalwyr y Dreth Gyngor herio a yw eu hawdurdod bilio wedi penderfynu ar eu hatebolrwydd am y dreth yn gywir dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gyflwynwyd yn ddiweddar. Er mai dim ond o 1 Ebrill 2013 y gellid cofrestru apeliadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor â'r Tribiwnlys, ac felly nid ydynt yn rhan o'r adroddiad hwn, bu'r gwaith paratoi a fu'n ofynnol i fod yn barod i'w derbyn yn sylweddol. Mae ymgynghori ag awdurdodau lleol ar y prosesau cyswllt a graddfa botensial y llwyth gwaith apeliadau wedi cymryd amser. Ac mae hynny'n wir am gytuno ar y rheoliadau drafft â Llywodraeth Cymru hefyd. Ond efallai mai'r hyn sydd wedi cymryd y mwyaf o amser fu datblygu systemau cyfrifiadurol gwell i ymdopi â'r llwyth gwaith newydd. Cymhlethwyd hyn gan y ffaith bod gan ein partner Technoleg Gwybodaeth, y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio yn Lloegr, anghenion gwahanol oherwydd amrywiadau yng ngweithredu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng Cymru a Lloegr. Golygodd hyn bod peth o'r gwaith cynlluniedig – er enghraifft, adolygu dogfennau polisi penodol yn unol ag amserlen – wedi llithro.

Serch hynny, mae busnes craidd y Tribiwnlys wedi cael sylw trwyadl. Mae'r Clercod Rhanbarthol wedi sicrhau bod cynllun rhestru llawn ar gyfer y flwyddyn. Ac yn unol â hynny mae'r lefel clirio apeliadau wedi bod yn dda – ac, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae nifer y cwynion ac atgyfeiriadau i lysoedd uwch wedi bod yn isel iawn.

Dechreuais ar fy ngwaith fel y Prif Weithredwr ym mis Mawrth, ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi adolygu gwaith yr unarddeg mis blaenorol. Gobeithiaf y bydd y gwaith yn ystod y deuddeg mis nesaf dan fy ngwarchodaeth, gan weithio â'r Cyngor Llywodraethu, yn cael ei reoli gystal. Yn sicr dyna fy nod.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1. Prif Swyddogaethau Tribiwnlys Prisio Cymru

1.1 Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru swyddogaethau barnwrol a gweinyddol a ragnodir gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 ("y rheoliadau").

1.2 Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru swyddogaeth farnwrol statudol i glywed a phenderfynu ar apeliadau yn erbyn prisiad eiddo ar gyfer Ardrethi (Busnes) Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio. Mathau eraill o apeliadau sydd dan awdurdodaeth y Tribiwnlys Prisio yw'r rhai a gyflwynir yn erbyn atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, Hysbysiadau Cwblhau a rhai mathau o gosbau a roddir gan Awdurdodau Bilio (Cynghorau) neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

1.3 Mae swyddogaethau gweinyddol Tribiwnlys Prisio Cymru, wrth gefnogi ei rôl farnwrol, yn cynnwys:

- darparu adeiladau;
- penodi staff gan gynnwys y Prif Weithredwr/Clerc y Tribiwnlys;
- darparu technoleg gwybodaeth;
- darparu offer;
- darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau a staff;
- cydlynu darparu cyngor cyffredinol ar weithdrefnau'n ymwneud â gweithrediadau'r Tribiwnlys Prisio; a
- rheoli materion ynglŷn â chydymffurfio yn weithredol.

1.4 Mae'r Tribiwnlys Prisio'n hollol annibynnol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gosod y gwerthoedd ardrethol ar eiddo annomestig a bandiau treth gyngor ar gyfer cartrefi, a'r Cynghorau sy'n danfon yr hysbysiadau galw am dalu'r ardrethi a'r dreth gyngor.

2. Strwythur Trefniadaeth Tribiwnlys Prisio Cymru

2.1 Mae'r aelodau yn wirfoddolwyr lleol a benodir i'r Tribiwnlys ar y cyd gan y Llywydd a chan yr Awdurdodau Bilio yng Nghymru. Maent yn eistedd ar y paneli sy'n gwrando ar apeliadau ac yn eu penderfynu. Trefnir gwrandawiadau mewn lleoliadau lleol, nodwedd gydnabyddedig o ran rhoi budd i'r trethdalwyr/talwyr ardrethi.

2.2 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn cynnwys pedwar rhanbarth daearyddol ac mae'n cael ei weinyddu o dair swyddfa wedi'u lleoli ar hyd coridorau'r M4 a'r A55. Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn roedd y swyddfeydd wedi eu lleoli ym Mhenllergaer (ar gyrion Abertawe), Casnewydd a Chyffordd Llandudno. Adleolodd rhanbarth Gorllewin Cymru ei swyddfa o Gaerfyrddin i Benllergaer ym mis Ionawr 2013.

2.3 Mae gan bob un o'r pedwar Rhanbarth sy'n bodoli yn y Tribiwnlys Prisio Glerc Rhanbarthol a Swyddog(ion) Tribiwnlys Proffesiynol, ynghyd â staff cymorth gweinyddol. Mae aelodau staff proffesiynol yn darparu arweiniad deddfwriaethol a gweithdrefnol a chefnogaeth gyffredinol i'r aelodau lleyg.

2.4 Sefydlwyd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru o 1 Gorffennaf 2010 ac mae'n cynnwys chwe aelod di-dâl a gefnogir gan swyddogion y Tribiwnlys (y Prif Weithredwr/Clerc Statudol a'r Clercod Rhanbarthol sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli). Cyflawnir swyddogaethau statudol Tribiwnlys Prisio Cymru ar ei ran gan y Cyngor Llywodraethu ac mae ei rôl yn debyg i rôl Bwrdd. Mae'r Clercod yn rheoli eu Rhanbarthau unigol ac yn cyfrannu at waith y Cyngor wrth iddo ymdrechu i gael unffurfiaeth o ran gweithrediadau gweinyddol a chysondeb yn arferion y Tribiwnlys ar draws Cymru.

2.5 Mae'r Cyngor Llywodraethu yn cynnwys Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru, a etholir gan holl aelodaeth y Tribiwnlys, a Chynrychiolwyr Rhanbarthol a etholir gan yr aelodau hynny sydd yn dod o Ranbarthau Dwyrain, Gogledd, De a Gorllewin Cymru'r Tribiwnlys yn eu tro. Hefyd, mae Gweinidogion Cymru'n gwneud un penodiad i'r Cyngor Llywodraethu.

2.6 Cynhelir etholiadau i'r Cyngor Llywodraethu mewn cylchred dwy flynedd a nodir yn y rheoliadau; felly eleni gwelwyd yr etholiad olynol cyntaf yn dilyn yr etholiad sefydlu yn 2010. Fel y cyhoeddwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, ymddiswyddodd Mr John H Owens fel Llywydd, felly roedd rhaid ethol ei olynydd. Etholwyd Miss Carol Cobert, aelod hirhoedlog o'r Cyngor Llywodraethu, dan Dribiwnlys Prisio Cymru a'r corff blaenorol, Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru.

2.7 Ar ddechrau'r cyfnod aelodaeth y Cyngor Llywodraethu oedd:

Mr JH Owens, Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru
Mr EC Beaumont, Cynrychiolydd Rhanbarthol Dwyrain Cymru
Mr HM McEvoy MBE, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gogledd Cymru
Miss CA Cobert YH, Cynrychiolydd Rhanbarthol De Cymru
Mr NKL Thomas, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Mr RG Parry OBE, Aelod annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn dilyn yr etholiad a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2012, yr aelodaeth oedd:

Miss CA Cobert YH, Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru (etholedig)
Mr CN Todd, Cynrychiolydd Rhanbarthol Dwyrain Cymru (etholedig)
Mr HM McEvoy MBE, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gogledd Cymru (etholedig)
Mr AHN Clatworthy, Cynrychiolydd Rhanbarthol De Cymru (etholedig)
Mr JR Evans, Cynrychiolydd Rhanbarthol Gorllewin Cymru (etholedig)
Mr RG Parry OBE, Aelod annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Noder: Ailbenodwyd Mr RG Parry gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o bedair blynedd arall o fis Mehefin 2012.

2.8 Etholwyd Dirprwy Gynrychiolwyr Rhanbarthol, fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau, yn yr etholiadau ar 1 Gorffennaf. Yr unigolion a etholwyd oedd:

Mr KC Mock, Dwyrain Cymru
Mr JB Jones, Gogledd Cymru
Mrs BC Martin, De Cymru
Mr NKL Thomas, Gorllewin Cymru

2.9 Gelwir ar y Llywydd, y Cynrychiolwyr Rhanbarthol a'r aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i fynychu pob cyfarfod y Cyngor Llywodraethu. Os nad yw Cynrychiolydd Rhanbarthol yn medru bod yn bresennol mae eu Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol yn dod yn eu lle, os yw'n bosibl. Cynhaliwyd cyfanswm o 4 cyfarfod Cyngor Llywodraethu yn 2012-13, ac roedd y presenoldeb fel a ganlyn:

13 Mehefin 2012

Aelod	**Swydd**	**Pres-ennol**	**Nodiadau**	**Penodwyd tan:**
JH Owens	Llywydd	1		30 Mehefin 2012
EC Beaumont	Cynrychiolydd Rhanbarthol	0	Cyflwynwyd ymddiheuriad	30 Mehefin 2012
HM McEvoy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	1		30 Mehefin 2012
CA Cobert	Cynrychiolydd Rhanbarthol	1		30 Mehefin 2012
NKL Thomas	Cynrychiolydd Rhanbarthol	1		30 Mehefin 2012
RG Parry	Aelod Annibynnol	1		30 Mehefin 2012

12 Medi 2012, 5 Rhagfyr 2012, 13 Mawrth

Aelod	**Swydd**	**Pres-ennol**	**Nodiadau**	**Penodwyd tan:**
CA Cobert	Llywydd	3		30 Mehefin 2014
CN Todd	Cynrychiolydd Rhanbarthol	2	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Rhagfyr Dirprwy yn bresennol	30 Mehefin 2014
HM McEvoy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	2	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Medi Dirprwy yn bresennol	30 Mehefin 2014
AHN Clatworthy	Cynrychiolydd Rhanbarthol	3		30 Mehefin 2014
JR Evans	Cynrychiolydd Rhanbarthol	2	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Medi Dirprwy yn bresennol	30 Mehefin 2014
R G Parry	Aelod Annibynnol	2	Cyflwynwyd ymddiheuriad – Mawrth	11 Mehefin 2016
JB Jones	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Dirprwyo – Medi	30 Mehefin 2014
NKL Thomas	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Dirprwyo – Medi	30 Mehefin 2014
KC Mock	Dirprwy Gynrychiolydd Rhanbarthol	1	Dirprwyo – Rhagfyr	30 Mehefin 2014

3. Fframwaith Rheoli Tribiwnlys Prisio Cymru

3.1 Mae'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gwblhawyd ym mis Medi 2010 yn gosod y berthynas rhwng Tribiwnlys Prisio Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn diffinio'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru wrth ddarparu cyllid i'r Tribiwnlys. Maent yn nodi'r terfynau dirprwyo a rheolau eraill, rheoliadau a chanllawiau sy'n berthnasol o ran arfer swyddogaethau Tribiwnlys Prisio Cymru ac yn manylu sut y sicrheir bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn atebol. Mae talu cronfeydd ariannol i Dribiwnlys Prisio Cymru yn amodol ar gyflawni ei rwymedigaethau'n llwyddiannus yn unol â'r hyn a nodir yn y dogfennau uchod ac o dan amodau a gofynion eraill y gall Gweinidogion Cymru eu gorfodi o bryd i'w gilydd.

3.2 Mae'r Cyngor Llywodraethu wedi parhau i hybu gwella'r disgyblaethau rheoli a fabwysiadwyd gan Dribiwnlys Prisio Cymru, a fydd yn eu tro yn arwain at ddiwylliant o lywodraethu corfforaethol cryf a fydd yn sicrhau:

- y dangosir proses, priodoldeb, craffu ac atebolrwydd addas;
- y sefydlir fframweithiau polisi a chynllunio;
- y gosodir gweithdrefnau cyfrifyddu cynhwysfawr a chadarn yn eu lle;
- y gosodir arweiniad clir ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu lle; a bod
- polisïau cydymffurfio a gefnogir yn glir yn bodoli ac yn parhau i gael eu datblygu.

3.3 Yn ogystal â'r datganiadau manwl ynglŷn â swyddogaethau, cydymffurfio, cyfrifoldebau, fframwaith polisi, staffio a rheoli personél ac adolygiadau cyfnodol o'r gwasanaeth, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn ystyried bod y dogfennau a enwyd uchod yn disgwyl iddo gyflawni'r prif amcanion canlynol:

- sefydlu gwasanaeth cydlynol lle y cymhwysir polisïau ar hyfforddiant, technoleg gwybodaeth, swyddfeydd a thelerau ac amodau staff â chysondeb;
- ymdrechu i wella dealltwriaeth a boddhad cwsmeriaid o waith y Tribiwnlys Prisio;
- annog cryfhau gwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a'i randdeiliaid i wella'r broses apelio;
- ceisio gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chysondeb y gwasanaeth a ddarperir gan y Tribiwnlys Prisio; a
- sicrhau bod y Tribiwnlys yn gweithredu ag annibyniaeth farnwrol lwyr ac yn cael ei ystyried felly gan ei 'gwsmeriaid' er mwyn gwella hyder y cyhoedd.

3.4 Mae llawer o waith manwl y Cyngor Llywodraethu yn cael ei wneud gan ei bwyllgorau. Ar ddechrau cyfnod yr adroddiad hwn y pwyllgorau oedd:

- Hyfforddiant Staff ac Aelodau – sy'n cynllunio a chyflwyno hyfforddiant perthnasol ac amserol yn flynyddol.

- Adnoddau Dynol a Phersonél – sy'n cwmpasu meysydd fel recriwtio a chadw staff, polisïau staff (e.e. Cod Ymddygiad a Pholisïau Disgyblu/Cwynion) a blwydd-daliadau.
- Cydymffurfio – monitro a yw Tribiwnlys Prisio Cymru yn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth yr iaith Gymraeg, gwahaniaethu ar sail anabledd, iechyd a diogelwch a chydraddoldeb ac amrywiaeth ac ati.
- Cyllid ac Archwilio – sy'n cwmpasu, ymhlith pethau eraill, gweithdrefnau ariannol Tribiwnlys Prisio Cymru, asesiadau risg, pennu'r gyllideb a phrosesau monitro.

Daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn bod materion y Gymraeg wedi tra-arglwyddiaethu gwaith y Pwyllgor Cydymffurfio, wrth baratoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, a luniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn disodli'r Cynlluniau Iaith Gymraeg. Yn unol â hynny neilltuwyd y rhan hon o waith y Pwyllgor Cydymffurfio, a ffurfiwyd pwyllgor newydd, Pwyllgor y Gymraeg.

3.5 Mae'r pwyllgorau yn cynnwys cymysgedd o staff ac aelodau, o bob lefel profiad a safle yn y sefydliad. Y nod yw gwneud y defnydd gorau posibl o sylfaen eang o wybodaeth a brwdfrydedd wrth ddatblygu polisïau, mentrau ac arferion monitro newydd. Mae datblygu'r broses hon yn parhau yn ei ddyddiau cynnar, ac nid yw ei gydlyniad wedi ei weithredu'n llawn eto. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oedd swyddog rheoli cyflogedig â chyfrifoldebau wedi eu cyfyngu i weinyddiaeth a rheolaeth genedlaethol yn unig yn bodoli tan ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn. Mae'r Tribiwnlys, ar ei ffurf bresennol a'i ragflaenwyr, wedi cyfuno rôl y Prif Weithredwr ag un clerc tribiwnlys â chyfrifoldebau o ddydd i ddydd lleol am brosesu apeliadau a chydlynu aelodau. Mae hyn, ynghyd ag ymwneud y Prif Weithredwr yn (a) datblygiad rheoliadau ar gyfer apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a (b) proses recriwtio Prif Weithredwr newydd yn niwedd 2012 a dechrau 2013, wedi arwain at ddiffyg datblygu a chydlynu cynllun cylchred pwyllgorau cenedlaethol. Mae datblygu'r gylchred hon yn un o'r amcanion ar gyfer cyfnod yr adroddiad nesaf. (Ceir rhagor o fanylion am apeliadau'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a recriwtio Prif Weithredwr newydd mewn adrannau diweddarach yn yr adroddiad hwn.)

3.6 Fel a nodwyd uchod yng nghyswllt swydd y Prif Weithredwr am fwyafrif y cyfnod hwn roedd rheolwyr lefel uchel yn y sefydliad yn cyflawni rôl ddeuol. Mae'r tîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Clercod Rhanbarthol. Roedd rhaid i bob un, tan ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn, gyfuno tasgau gweithrediadol dydd i ddydd tribiwnlysoedd â dyletswyddau uwch reolwyr. Mae hyn yn parhau'n wir yn achos y Clercod Rhanbarthol, ond mae wedi newid yn achos y Prif Weithredwr. Y Prif Weithredwr am fwyafrif y flwyddyn oedd Simon Hill, sydd hefyd yn Glerc Rhanbarthol Dwyrain Cymru. Yn dilyn ei benderfyniad i beidio â cheisio estyniad i'w secondiad fel Prif Weithredwr, manteisiodd y Cyngor Llywodraethu ar y cyfle i benodi unigolyn i'r swydd heb gyfrifoldeb am swyddogaethau gweithrediadol o ddydd i ddydd y tribiwnlys. Bydd hyn yn cynyddu'r sylw a'r ffocws a roir i faterion strategaeth a rheolaeth lefel uwch yn ddyddiol, a gobeithir y bydd hyn yn gam sylweddol ymlaen wrth wella cydlynu a harmoneiddio cyffredinol ar draws y gwasanaeth.

4. Strwythur Staff Tribiwnlys Prisio Cymru

4.1 Mae gan bob un o'r pedwar rhanbarth Glerc Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli'r gwaith apeliadau yn eu hardal ddaearyddol. Mae'r Clercod yn goruchwylio eu timau bach o staff, sy'n cynnwys Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol (staff wedi eu hyfforddi i gynghori'r aelodau ar y gyfraith a gweithdrefnau) a Staff Cymorth Gweinyddol. Mae hyn yn waddol o'r cyfnod pan oedd y rhanbarthau yn dribiwnlysoedd annibynnol, ar wahân, yn y gorffennol. Mae'r trefniant yn gweithio'n dda ac mae aelodau staff unigol ar bob lefel yn meddu ar lawer o wybodaeth leol arbenigol. Roedd rhai Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol, cyn bodolaeth Tribiwnlys Prisio Cymru, yn swyddogion symudol, a oedd yn caniatáu i'r rheolwyr alw arnynt i wasanaethu mewn ardaloedd y tu hwnt i'w hardaloedd arferol. Gallai hyn ddigwydd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir staff neu gynnydd yn y llwyth gwaith mewn ardaloedd penodol. Nawr bod y sefydliad yn un tribiwnlys gellir gofyn i bob un o'r Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol fynd i dribiwnlysoedd yn unrhyw leoliad yng Nghymru.

4.2 Uwchlaw'r Clercod Rhanbarthol mae rôl y Prif Weithredwr sydd hefyd yn cwmpasu, dan reoliadau llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, swydd statudol Clerc y Tribiwnlys. Fel a nodwyd yn gynharach, yn ystod mwyafrif cyfnod yr adroddiad hwn cyflawnwyd rôl y Prif Weithredwr gan Glerc Rhanbarthol Dwyrain Cymru, Mr Simon Hill. Cafodd Mr Hill secondiad i'r swydd yn 2009 yn wreiddiol, ac adnewyddwyd y secondiad yn 2011. Roedd potensial i adnewyddu eto yn 2013, ond ym mis Mehefin 2012 hysbysodd Mr Hill na fyddai'n gwnedu cais am adnewyddu'r secondiad na pharhau yn y swydd. O ganlyniad, hysbysebwyd y swydd ym mis Tahcwedd 2012 ar sail cyfnod penodol o ddwy flynedd; ac yn dilyn proses recriwtio agored gwnaed penodiad yn weithredol o 4 Mawrth 2013. Penodwyd Mr Andrew Shipsides, sy'n meddu ar 16 mlynedd o brofiad o weithio mewn tribiwnlysoedd prisio yn Lloegr. Ei swydd olaf yno oedd Pennaeth Gweinyddiaeth Gogledd Orllewin Lloegr (a oedd yn cynnwys clerciaethau Glannau Merswy, Sir Gaer a Sir Gaerhirfryn). Diddymodd Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Lloegr yr haen uwch reolaeth Pennaeth Gweinyddiaeth yn 2006 a bu Mr Shipsides yn gweithio yn y sector preifat wedi hynny, gan ehangu ei brofiad o weinyddiaeth gorfforaethol. Tra yn y gwasanaeth tribiwnlysoedd yn Lloegr yn niwedd yr 1990au ymgymrodd Mr Shipsides â swyddogaeth y defnyddiwr-cynghorydd arweiniol wrth ddatblygu system gyfrifiadurol y tribiwnlysoedd; mae'r datblygiad hwnnw yn parhau i fod yn sylfaen y systemau Technoleg Gwybodaeth a ddefnyddir yng Nghymru heddiw. Mae Mr Shipsides yn gweithio o swyddfa'r Tribiwnlys yng Nghyffordd Llandudno; roedd Mr Hill wedi ei leoli yn swyddfa Casnewydd (ac mae'n parhau i fod yno).

4.3 Cefnogir y Prif Weithredwr gan Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol, sydd â chyfrifoldebau fel Swyddog Cymorth Gweinyddol yn Rhanbarth Dwyrain Cymru hefyd. Felly mae'r swyddog yma yn gweithio o swyddfa Casnewydd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y swyddog hwn i'r Prif Weithredwr newydd yn cael eu hwyluso gan systemau telathrebu modern ac adnoddau rhwydwaith y Tribiwnlys.

4.4 Yn ystod cyfnod yr adroddiad roedd cyfanswm o 19 o bobl yn cael eu cyflogi gan Dribiwnlys Prisio Cymru (pob un yn staff amser llawn). Roeddynt yn cyflawni'r swyddogaethau isod:

- Prif Weithredwr a Chlerc Rhanbarthol ar y cyd (tan 4 Mawrth 2013)
- Prif Weithredwr (o 4 Mawrth 2013)
- 4 Clerc Rhanbarthol (yn cynnwys y swydd ar y cyd a ddangosir uchod)
- 7 Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol
- 1 Swyddog Tribiwnlys Proffesiynol dan hyfforddiant
- 1 Swyddog Cyllid/Cymhorthydd Personol
- 5 Swyddog Cymorth Gweinyddol

Gadawodd un Swyddog Cymorth Gweinyddol yn ystod y flwyddyn, ac ni ailbenodwyd i'r swydd hyd yma.

4.5 Yn ystod y cyfnod cyflogwyd ymgynghorydd Adnoddau Dynol profiadol i wneud iawn am fwlch tybiedig mewn arbenigedd Adnoddau Dynol, ar sail cytundeb 12 mis, i ddarparu cyfleuster llinell gymorth 24 awr, sesiynau hyfforddiant rheoli achlysurol ad hoc, a chyngor ac argymhellion ar y polisïau a'r dogfennau Adnoddau Dynol.

4.6 Golyga rhesymau hanesyddol (tribiwnlysoedd ar wahân) bod y staff yn perthyn i bedair cronfa bensiwn wahanol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae 100% y gweithlu wedi eu cynnwys yn y trefniadau pensiwn hyn. Fodd bynnag, nawr bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn un corff, nid yw gosod aelodau staff newydd yn y 'gronfa briodol' yn gwbl glir ar hyn o bryd dan y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd hwn yn fater y bydd rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef maes o law.

4.7 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau i fonitro presenoldeb staff ac yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn fisol, fel rhan o'i gylch gwaith i fonitro absenoldebau staff mewn cyrff gwasanaethau cyhoeddus.

4.8 Collwyd cyfanswm o 98½ diwrnod i salwch staff yn ystod y flwyddyn, sy'n cyfateb i gyfradd absenoldeb staff o fymryn dros bum diwrnod am bob aelod o staff. Cafodd y ffigurau eu hystumio gan absenoldeb tymor canolig un aelod o staff (22 diwrnod) ac maent yn cynrychioli cynnydd bychan o'i gymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Serch hynny, mae'r ffigur yn parhau'n is na'r cyfartaledd blynyddol yn y sector cyhoeddus o 8½ diwrnod o absenoldeb am bob aelod o staff, fel y bu ers sawl blwyddyn, ac mae'n cymharu'n ffafriol â chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru. Gan fod nifer staff Tribiwnlys Prisio Cymru yn isel iawn gall y cyfartaledd am bob aelod o staff gael ei wyro'n hawdd gan un absenoldeb tymor hir oherwydd salwch neu analluogrwydd difrifol.

4.9 Mae traean y gweithlu yn ddwyieithog o ran y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae gan bob tîm rhanbarthol o leiaf un aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae gan eraill lefelau sgiliau Cymraeg amrywiol. Mae'r Tribiwnlys yn hybu datblygu sgiliau Cymraeg ac mae'n barod iawn i dalu am gyrsiau hyfforddiant i'r rhai

sy'n dymuno gwella eu gallu yn yr iaith. Mae'r ymwybyddiaeth ynghylch ymateb yn Gymraeg i bobl sy'n cyfathrebu â'r Tribiwnlys yn Gymraeg yn gryf drwy'r sefydliad, a rhoir sylw a gofal mawr i sicrhau darparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r defnyddwyr hyn, yn ysgrifenedig ac ar lafar.

5. Aelodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru

5.1 Penderfynir ar nifer aelodau'r Tribiwnlys gan reoliadau statudol ac fe'i nodir yn nhelerau nifer yr aelodau y gellir eu penodi mewn perthynas â phob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r penodiadau ar gyfer pob ardal yn cael eu gwneud gan baneli penodi ar y cyd, sy'n cynnwys cynrychiolydd, neu gynrychiolwyr, y cyngor yn yr ardal dan sylw a Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru neu, os awdurdodir hynny gan y Llywydd, Cynrychiolydd Rhanbarthol Tribiwnlys Prisio Cymru ar ran y Cyngor Llywodraethu. Gall cyfnod y penodiadau fod hyd at uchafswm o chwe mlynedd. Yn arferol mae'r cyfnod o chwe mlynedd yn cael ei fabwysiadu'n gyffredin a dyna sy'n arferol. Yn gyffredinol mae paneli penodi yn ymgynnull unwaith bob dwy flynedd ac yn ymdrin â phenodi traean y cyfanswm ar gyfer y rhanbarth dan sylw. Gellir galw paneli penodi ad hoc ar unrhyw adeg er mwyn ymdrin ag unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn aelodaeth ynghanol y cyfnod, ond mae hyn yn anarferol. Gan amlaf mae newidiadau mewn lefelau aelodaeth yn digwydd oherwydd marwolaethau neu ymddiswyddiadau. Dim ond yn achlysurol mae hyn yn digwydd, ac felly mae'r lefelau aelodaethau yn tueddu bod yn sefydlog dros gyfnod cymharol hir. Ar ddiwedd cyfnod penodiad gellir ailbenodi'r aelod. Nid oes terfyn oedran uchafswm o ran aelodaeth. Mae nifer o'r aelodau presennol wedi eu haibenodi sawl gwaith yn ystod eu gyrfa â'r Tribiwnlys a'i ragflaenwyr, ac felly maent yn meddu ar brofiad helaeth o ymdrin ag apeliadau trethiant lleol.

5.2 Dyma'r cyfansymiau rhanbarthol drwy gydol blwyddyn yr adroddiad:

Dwyrain Cymru	**48**	**De Cymru**	**48**
Gogledd Cymru	**46**	**Gorllewin Cymru**	**44**

5.4 Mae'r siart isod yn dangos proffil oedran yr aelodaeth, yn ôl rhyw, fel yr oedd ar ddechrau'r cyfnod. Cynhwysir tabl sy'n dangos y data crai yn Atodiad A.

Membership Profile by Age and Gender



5.5 Mae'r proffil oedran yn dangos aelodau yn yr oedran 60+ yn bennaf, fel y bu ers sawl blwyddyn, ac mae amrywiaeth yr aelodau o ran agweddau eraill, megis cefndir ethnig ac anabledd, yn is na 5%. Gwnaed ymdrechion i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn y rhanbarthau, ar adeg recriwtio. Fodd bynnag, mae natur wirfoddol yr aelodaeth yn arwain at fynegi diddordeb gan y rhai yn y gymdeithas sydd wedi ymddeol neu ymddeol yn rhannol. Mae angen i Dribiwnlys Prisio Cymru ymdrin â hyn a bwriedir parhau i ymchwilio i ffyrdd o annog ceisiadau am aelodaeth gan grwpiau wedi eu tan-gynrychioli.

5.6 Mae chwarter yr aelodaeth yn ddwyieithog o ran y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly – ar y cyd â'n staff dwyieithog – gallwn gynnal gwrandawiadau yn gyfangwbl yn y Gymraeg heb fod angen cyfleusterau cyfieithu, cyn belled ag y bo pawb sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad yn medru'r Gymraeg. Os nad yw'r cyfranogwyr eraill yn medru'r Gymraeg rydym ni'n cyflogi contractwr i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, er mwyn cynnal annibyniaeth y Tribiwnlys. Serch hynny, byddai'r aelodau yn y gwrandawiad yn siaradwyr Cymraeg rhugl a byddent yn deall y sawl sy'n cyflwyno eu hachos yn y Gymraeg yn llwyr ac yn uniongyrchol.

6. Llwyth gwaith

6.1 Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cwmpasu amrediad o wahanol fathau o apêl. Apeliadau Rhestr Ardrethu Annomestig, apeliadau Rhestr Brisio'r Dreth Gyngor ac apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor yw'r rhain yn bennaf. Apeliadau eraill a dderbynnir yn achlysurol yw apeliadau Hysbysiad Cosb, apeliadau Hysbysiad Cwblhau ac apeliadau Hysbysiad Draenio. Yn ogystal â'r llwyth gwaith apeliadau mae'r Tribiwnlys yn ymdrin â cheisiadau i adolygu penderfyniadau mewn ystod o achosion lle bo un parti yn anfodlon â'r canlyniad.

6.2 O ran y nifer, mae mwyafrif yr apeliadau ym maes ardrethu annomestig, gyda prisio'r dreth gyngor yn ail. Yn ystod y flwyddyn dan sylw gwnaeth y Tribiwnlys ddelio ag apeliadau yng nghyswllt cofnodion yn Rhestrau Ardrethu 2000, 2005 a 2010. Mae'r rhestrau hyn yn cael eu llunio a'u cynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Carreg filltir i'r Tribiwnlys eleni oedd cael gwared ar yr apeliadau terfynol yn deillio o restr ardrethu 2000. Golyga hyn bod yr holl faterion yn ymwneud â'r rhestr honno wedi eu cau yn awr. Mae ymdrin â materion yn deillio o restr ardrethu 2005 yn cyrraedd ei gyfnod olaf, gyda nifer yr achosion sy'n weddill wedi gostwng o fymryn dros 3000 ar ddechrau'r flwyddyn i ychydig dros 400 ar ddiwedd y flwyddyn. Yn aml wrth gyrraedd cam olaf apeliadau ardrethu bydd rhai achosion anodd a chymhleth ar ôl, sy'n galw am drafodaeth sylweddol rhwng y partïon cyn y gellir rhestru ar gyfer gwrandawiad gerbron tribiwnlys, a byddant yn aros yn y cam hwn. Felly gallai rhai o'r 400 achos olaf yn deillio o restr 2005 fod o gwmpas am gryn amser eto, ond nod y Tribiwnlys yw cael gwared ar y mwyafrif yn ystod y cyfnod 12 mis nesaf. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith apeliadau ardrethu yn ystod y cyfnod yn ymwneud â rhestr 2010 – gyda thua 9400 yn aros am wrandawiad ar ddechrau'r cyfnod, a 6500 arall wedi eu hychwanegu at y nifer yma yn ystod y flwyddyn. Ymdriniwyd â 8800 o'r achosion yn ystod y flwyddyn, gan adael 7100 yn weddill ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r Tribiwnlys yn y 'cyfnod canol' o ran apeliadau ardrethu yn deillio o restr 2010; ac felly (ar sail profiad blaenorol) mae niferoedd sylweddol o apeliadau yn parhau yn debygol o lifo trwy'r Tribiwnlys yn ystod y blynyddoedd nesaf. Serch hynny, efallai bod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni, yn gohirio'r adolygiad ailbrisio pum mlynedd arferol ar gyfer eiddo annomestig wedi cael effaith ar sut y bydd asiantau eiddo syrfeiwyr siartredig (sy'n cyflwyno mwyafrif yr apeliadau ar ran trethdalwyr) yn trefnu eu llwyth gwaith. Bellach trefnwyd cynnal yr ailbrisio yn 2017. (Dangosir ffigurau manwl apeliadau ardrethu yn y tabl yn Atodiad B-1.)

6.4 Mae nifer yr apeliadau prisio y Dreth Gyngor yn llawer is na materion ardrethu annomestig. Ar ddechrau'r cyfnod roedd 450 yn weddill; a derbyniwyd 1600 o apeliadau yn ystod y flwyddyn. Roedd y lefel clirio ychydig dros 1500 ar ddiwedd y cyfnod – gan adael bron i 550 i'w cario trosodd. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau ymddangos gerbron tribiwnlys yn uwch yn gyffredinol ar gyfer apeliadau prisio'r Dreth Gyngor, fel cyfran o'r nifer a dderbyniwyd, o'i gymharu ag apeliadau Ardrethu Annomestig. Yn unol â hynny maent yn cynrychioli cyfran sylweddol o lwyth gwaith gwrandawiadau a phenderfyniadau'r Tribiwnlys, er gwaetha'r niferoedd is. Mae hyn oherwydd bod mwyafrif yr

achosion dreth gyngor yn cael eu cyflwyno gan drethdalwyr heb gynrychiolaeth, sy'n aml yn llai parod i drafod a negodi i ddatrys eu hachos â chynrychiolydd o Asiantaeth y Swyddfa Brisio nag yw swyddog eiddo proffesiynol o ran materion ardrethu. Fel dangosydd bras, mae 21% o'r achosion prisio'r dreth gyngor yn cael eu penderfynu, o'i gymharu â 13% o'r apeliadau ardrethu annomestig.

6.5 Mae nifer yr achosion Atebolrwydd y Dreth Gyngor yn llawer is na'r ddau fath o achosion prisio y cyfeirwyd atynt yn y paragraffau uchod, serch hynny mae'r rhain yn tueddu bod yn faterion llawer mwy dadleuol, sy'n cael eu cofrestru'n aml gan apelyddion heb gynrychiolaeth. Penderfynodd y Tribiwnlys ar 80% o'r achosion a gliriwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd llai na 10% o'r rhain yn hawliadau llwyddiannus. Yn aml bydd yr apelyddion sy'n colli yn yr achosion hyn yn gwneud cais i adolygu'r penderfyniad, heb sail gadarn dros hynny yn aml (mae'r seiliau sy'n ofynnol wedi eu nodi yn y rheoliadau statudol). Serch hynny mae'n rhaid i aelodau edrych ar y ceisiadau hyn. Mae llawer yn cael eu gwrthod fel rhai di-sail. Er bod y niferoedd yn fach gall materion Atebolrwydd y Dreth Gyngor hawlio llawer o amser y tribiwnlys. (Ceir niferoedd manwl yr apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor, ynghyd â mathau apeliadau llai a grybwyllwyd ym mharagraff 6.1, yn Atodiad B-2.)

6.6 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, prin iawn oedd yr achosion a gyflwynodd apêl i lefel uwch. Cyflwynwyd cyfanswm o chwech achos ardrethu annomestig i'r Siambr Tiroedd ar apêl (3 o Ddwyrain Cymru – ar yr un eiddo [gweithfeydd dur]; 2 o Ogledd Cymru – a oedd hefyd yn cynnwys gweithfeydd dur; ac 1 o Orllewin Cymru. Nid yw'n anarferol i apeliadau ar weithfeydd diwydiannol mawr cymhleth, fel gweithfeydd dur, fynd ymlaen i'r uchel lysoedd. Mewn achosion fel hyn, lle na ellir llunio cytundeb rhwng y partïon y tu allan i'r system llysoedd, mae'r Tribiwnlys Prisio yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad i 'ymarfer' y gwrandawiad am ddim cyn mynd ymlaen i'r lefelau uwch. Ni fu unrhyw atgyfeiriadau i'r Uchel Lys o ran apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn.

7. Cwynion

7.1 Cafwyd dau gŵyn yn ystod y flwyddyn. Roedd un yn fater cymhleth yn ymwneud ag apeliadau ar wahân ond cysylltiedig gan unigolion, a oedd yn bâr priod, yng nghyswllt eiddo wedi eu lleoli yng Nghymru a Lloegr. Yn fyr, roedd penderfyniadau'r tribiwnlys, a wnaed ar wahân gan Dribiwnlys Cymru a Thribiwnlys Lloegr, yn gwrthgyferbynu. Ar ôl ystyried yr holl faterion a'r gyfraith berthnasol, penderfynodd y Prif Weithredwr, yn unol â dymuniadau'r cwynwr, ei bod yn bosibl cynnal adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad yng Nghymru sawl mis ar ôl gwneud y penderfyniad gwreiddiol, ar y sail bod buddiannau cyfiawnder yn cyfiawnhau adolygiad o'r fath. Mân gŵyn amhenodol am weithdrefnau'r tribiwnlys yn dilyn gwrthod apêl oedd y mater arall. Hysbyswyd y cwynwr am ei ddewisiadau a'i hawliau o ran mynd â'r mater ymhellach pe dymunai, ond ni chanfuwyd bod unrhyw ymddygiad andwyol gan y Tribiwnlys o ran ymdrin â'r apêl gwreiddiol.

8. Ystad Tribiwnlys Prisio Cymru

8.1 Mae swyddfeydd gweinyddol pedwar rhanbarth Tribiwnlys Prisio Cymru wedi eu lleoli mewn tri lleoliad strategol yng Nghymru.

Mae Swyddfeydd Gweinyddol Dwyrain a De Cymru wedi eu lleoli yn 22 Gold Tops, Casnewydd**.** Rhentir yr adeilad hwn gan landlord preifat ar brydles tan fis Hydref 2014 ac mae'n cael ei ystyried yn gyffredinol i fod yn addas i'w bwrpas (Adolygiad Strategol Ystadau Llywodraeth Cymru yn 2008). Mae'r trefniant wedi bodoli ers sawl blwyddyn (dros bymtheg mlynedd). Mae ystafell gwrandawiadau a chyfleusterau i'r aelodau ymneilltuo iddynt yn rhan o'r adeilad ac fe'u defnyddir yn rheolaidd – gan arbed ar gostau teithio staff a chostau llogi ystafelloedd.

Lleolir **Swyddfa Weinyddol Gogledd Cymru** mewn rhan o swyddfa cynllun agored yn adeilad Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Mae trefniant Memorandwm Telerau Meddiannu yn bodoli. Mae hwn yn adeilad cyhoeddus newydd ac felly'n cydymffurfio â'r holl safonau hygyrchedd a diogelwch cyfredol. Nid yw'r Tribiwnlys yn cynnal gwrandawiadau tribiwnlys yn yr adeilad ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau gweithrediadol, ond cynhelir cyfarfodydd eraill (staff, aelodau a hyfforddiant) yno yn achlysurol.

Dechreuodd **Swyddfa Weinyddol Gorllewin Cymru** y cyfnod yng nghanol tref Caerfyrddin ar y llawr cyntaf a'r ail lawr mewn adeilad swyddfa ar 14 Stryd y Brenin – eiddo i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yr adeilad yn cydymffurfio â'r safonau hygyrchedd cyfredol ac, oherwydd cynlluniau Llywodraeth Cymru i waredu'r adeilad, adleolwyd y swyddfa i ardal hunangynhwysol yn Adeilad y Llywodraeth ym Mhenllergaer, ar gyrion Abertawe. Mae trefniant Memorandwm Telerau Meddiannu yn bodoli. Gall y rhanbarth ddefnyddio ystafell sy'n addas ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys ar y safle.

8.2 Darperir gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ac ataliol i'r adeiladau yng Nghyffordd Llandudno a Phenllergaer gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cytundebau Memorandwm Telerau Meddiannu. O ran Casnewydd, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn defnyddio cwmni cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

8.3 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn llogi adeiladau mewn nifer o leoliadau i gyflawni ei swyddogaethau barnwrol. Mae angen cynnal gwrandawiadau mewn lleoliadau cyfleus ac mewn adeiladau addas. Y prif elfennau a ystyrir wrth chwilio am adeiladau addas ar gyfer ystafelloedd gwrandawiad yw:

- rhwyddineb hygyrchedd gan gynnwys sicrhau bod cyfleusterau parcio ceir ar gael;
- dangos annibyniaeth briodol oddi wrth y cyrff yr apelir yn erbyn eu penderfyniad;

- cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gofynion Iechyd a Diogelwch;
- diwallu disgwyliadau defnyddwyr; a
- darparu gwerth am arian.

8.4 O dro i dro mae'r Tribiwnlys yn parhau i ddefnyddio adeiladau awdurdod lleol modern, gan fod y rhain yn darparu lleoliadau ansawdd uchel, diogel, hygyrch a gwerth am arian. Fodd bynnag, gan fod yr apeliadau sy'n cael eu hystyried yn deillio o faterion ardrethu lleol, nid yw defnyddio'r lleoliadau hyn yn 100% delfrydol – gan y gellid dirnad bod annibyniaeth y Tribiwnlys wedi'i gyfaddawdu. Mae'r Tribiwnlys yn ymwybodol o hyd ac felly, pan ddefnyddir y lleoliadau hyn, eglurir yn fanwl i'r rhai sy'n bresennol yn y gwrandawiad bod y Tribiwnlys a'r awdurdod lleol dan sylw yn gyrff ar wahân. Mae'r Tribiwnlys wedi ymrwymo i symud oddi wrth ddefnyddio adeiladau awdurdod lleol cyn belled ag y bo modd, tra'n parhau i ymrwymo i ddarparu lleoliadau ansawdd uchel, diogel a hygyrch.

9. Technoleg Gwybodaeth

9.1 Mae gan bob swyddfa ddigon o gyfrifiaduron i alluogi'r staff i gyrchu cronfa ddata ganolog Tribiwnlys Prisio Cymru. Mae'r rhain yn defnyddio meddalwedd Windows XP ynghyd â rhaglenni Office 2007, yn cynnwys Outlook (cyfleusterau e-bost). Darperir argraffwyr amlswyddogaeth sy'n caniatáu sganio dogfennau, anfon ffacs, llungopïo ac anfon e-bost yn uniongyrchol o'r argraffydd ymhob swyddfa. Mae adnewyddu technolegol y cyfrifiaduron pen desg, argraffwyr a gweinyddwyr wedi galluogi Tribiwnlys Prisio Cymru (ar y cyd â Thribiwnlys Prisio Lloegr) i barhau i dderbyn cymorth a chynnal a chadw cynhwysfawr ar gyfer ei holl wasanaethau Technoleg Gwybodaeth.

9.2 Mae'r gronfa ddata ganolog yn cysylltu'r holl swyddfeydd yng Nghymru gan ddefnyddio Rhwydwaith Ardal Eang. Uwchraddiwyd y cysylltiadau rhwydwaith i'r holl swyddfeydd yn ystod 2009, sydd wedi galluogi'r staff i gael lled band ehangach ac wedi cynorthwyo yn y broses achredu Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth, sy'n galw am ddangos lefelau diogeledd data uwch.

9.3 Bydd symud o rwydwaith GSX i rwydwaith achrededig Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth yn arwain at y posibilrwydd o gyrchu'r Rhwydwaith Ardal Eang a'r gronfa ddata o bell yn y dyfodol a allai alluogi staff i fabwysiadu arferion gwaith mwy hyblyg, megis gweithio o gartref. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn bwriadu treialu mynediad o bell yn y cyfnod adroddiad nesaf.

9.4 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (fel rhan o gytundeb ehangach Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Lloegr) yn is-gontractio gwasanaethau cymorth a datblygiad o ran y gronfa ddata ganolog i Capgemini trwy Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sydd yn ei thro yn is-gontractio gwasanaethau Capgemini fel rhan o gytundeb cyffredinol llawer mwy â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

9.5 Ar wahân i'r trefniadau partneriaeth Technoleg Gwybodaeth â Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Lloegr ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn gweithredu ei wefan ei hun www.valuation-tribunals-wales.org.uk/welsh. Cynhelir y wefan gan gontractwr a gyflogir gan Dribiwnlys Prisio Cymru ac mae'n gwbl ddwyieithog. Mae'n cynnwys holl lenyddiaeth Tribiwnlys Prisio Cymru ar ffurf dogfennau PDF, ynghyd â manylion cyswllt swyddfeydd rhanbarthol Tribiwnlys Prisio Cymru a'r Prif Weithredwr. Defnyddir y wefan i hyrwyddo Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cynnwys recriwtio darpar aelodau newydd, a hysbysu am fentrau newydd fel a phan fo'n briodol.

10. Adnoddau Ariannol Tribiwnlys Prisio Cymru

10.1 Ariennir costau cyffredinol cynnal y Tribiwnlys, sydd wedi bod oddeutu £1.1 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan Lywodraeth Cymru. Nid yw penawdau'r gwariant yn amrywio llawer o flwyddyn i flwyddyn. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei drin fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

10.2 Y dyraniad cyllideb y llynedd oedd £1.198 miliwn. Mae hyn yn dangos cwtogiad bach o £41K ar y 12 mis blaenorol – o ganlyniad i'r toriadau llymder yn y sector gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r prif feysydd gwariant yn ymrwymiadau tymor hir cymharol sefydlog – megis costau staffio, Technoleg Gwybodaeth a swyddfeydd. Mae'r rhain yn dod i bron i 80% o gyfanswm y gwariant. Mae Atodiad C yn darparu manylion am wariant Tribiwnlys Prisio Cymru yn 2012/2013. Dangosir y dosbarthiad canrannol yn y siart isod.

Canrannau Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru - 2012-13



10.3 Roedd y sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn yn dangos gwariant o 97% o'r adnoddau a ddyrannwyd. Fodd bynnag, nid yw taliadau rhent a thâl gwasanaeth rhanbarth Gorllewin Cymru ar gyfer y chwarter olaf (yn gysylltiedig â meddiannu swyddfeydd newydd ym Mhenllergaer) wedi eu cynnwys, gan nad oedd prosesau a dyrannu'r atebolrwyddau hyn wedi eu cwblhau gan Lywodraeth Cymru erbyn cau cyfrifon 2012-13. Bydd y taliadau hyn yn dod yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14. Rhagwelir y bydd y rhain yn gymharol isel ac yn unol â'r gyllideb ddirprwyedig. Serch hynny, bydd angen ystyried y cario trosodd hwn wrth gwblhau cyfrifon 2013-14.

10.4 Y Prif Weithredwr, ar ran y Cyngor Llywodraethu, yw'r swyddog penodedig ar gyfer diogelu cronfeydd cyhoeddus Tribiwnlys Prisio Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb i sicrhau uniondeb defnyddio'r holl gronfeydd a ddyrannwyd.

10.5 Amharwyd ar fonitro ariannol yn ystod ail hanner y flwyddyn o ganlyniad i'r newid staff yn yr adran noddi yn Llywodraeth Cymru, diffyg staff yno a'r angen iddynt ganolbwyntio ar ddatblygu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae llawer o filiau mawr dan brif benawdau'r gyllideb (staffio, Technoleg Gwybodaeth a swyddfeydd) yn cael eu talu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac yna mae'r wybodaeth ar wariant yn cael ei throsglwyddo i'r Prif Weithredwr. Fodd bynnag, er bod y biliau wedi eu talu ar amser, fe wnaeth y broses o adrodd am y gwariant chwalu yn ystod ail hanner y flwyddyn am y rhesymau a nodwyd uchod. Yn ffodus, gan bod y gwariant hwn yn gymharol sefydlog llwyddodd y Prif Weithredwr i wneud amcangyfrifon rhesymol gywir. Rhagwelir bydd cydgysylltu da, y ddwy ffordd, ar wariant ariannol yn cael ei ailsefydlu yn y flwyddyn gyllideb newydd.

11. Hyfforddiant a Datblygiad

11.1 Mae'r Tribiwnlys Prisio yn meddu ar hanes cryf o ddarparu hyfforddiant rheolaidd a phwrpasol i staff ac aelodau fel ei gilydd, fel a gofnodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Nid oedd eleni yn wahanol. Trefnodd y Pwyllgor Hyfforddiant Staff ac Aelodau raglen lawn ac amrywiol ar gyfer y flwyddyn gan gadw at y gyllideb dynn a oedd ar gael iddo.

11.2 Cynhaliwyd digwyddiad diwrnod llawn i'r holl aelodau, yn cwmpasu ystod o bynciau, yn cynnwys materion Atebolrwydd y Dreth Gyngor, materion prisio (trwsio/diffyg atgyweirio/cyflwr gwael), astudiaethau achos ac adolygiad o achosion diweddar yn yr uchel lysoedd a materion a godwyd gan yr aelodau (yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth a gwerthuso/arfarnu aelodau). Cynhaliwyd y digwyddiad mewn tri lleoliad gwahanol ledled Cymru, er mwyn cynnig ystod o ddyddiadau, hwyluso presenoldeb rhesymol a lleihau costau teithio. Y lleoliadau oedd Llangollen (Ebrill), Aberhonddu (Llangoed Hall, Mai) ac Aberystwyth (Mehefin).

11.3 Trefnwyd digwyddiadau deuddydd i gadeiryddion yn Llandrindod, lle bu Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr is-adran Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg a David Subbachi, Cyfarwyddwyr ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a David Magor, Prif Weithredwr y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw, yn eu hannerch. Hefyd cyflwynodd cadeirydd adroddiad ar ei phresenoldeb mewn cwrs hyfforddiant lefel uwch a ddarparwyd gan y Coleg Barnwrol. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ym mis Hydref.

11.4 Bu trawstoriad eang o staff mewn amrediad o ddigwyddiadau hyfforddiant mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys:

Cynhadledd Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw Cymru (Mehefin)
Datblygiadau'r cynllun pensiwn (Gorffennaf)
Diwrnod ymarferwyr Swyddogion Tribiwnlys Proffesiynol (Medi)
Diwygio Budd-daliadau Lles a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rhagfyr a Mawrth)
Cyflwyniad gan Ombwdsmon Cymru (Chwefror)
Cwrs Cymraeg i reolwyr (Chwefror)
Hyfforddiant Adnoddau Dynol i reolwyr (Chwefror)

Adnewyddodd nifer o'r rhai â thystysgrif cymorth cyntaf eu hyfforddiant er mwyn cynnal eu tystysgrifau.

12. Apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

12.1 Yn ystod y flwyddyn penderfynodd y Gweinidogion y dylai apeliadau'n deillio o'r system newydd yn lle'r Budd-dal Dreth Gyngor gael eu cyfeirio at Dribiwnlys Prisio Cymru. Enw'r system fyddai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fyddai'n dod yn weithredol ar 1 Ebrill 2013. Yn sgil y datblygiad hwn bu'r Prif Weithredwr yn ymwneud yn gynyddol, am gyfran helaeth o'r flwyddyn, â'r trafodaethau a'r paratoadau ar gyfer y maes awdurdodaeth newydd hwn. Roedd hyn yn cynnwys ceisio asesu graddfa debygol yr apeliadau (a wnaeth gynnwys cysylltu â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am eu brasamcan), cynghori ar eiriad a chwmpas y rheoliadau statudol a datblygu systemau Technoleg Gwybodaeth newydd.

12.2 Bydd yr apeliadau newydd yn debyg, mewn sawl ffordd, i'r apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor. Yn yr un modd â'r trefniadau ar gyfer apeliadau Atebolrwydd y Dreth Gyngor, bydd rhaid i drethdalwyr y dreth gyngor unigol gwyno am weithredu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wrth eu hawdurdod lleol cyn iddynt fedru cofrestru apêl yn uniongyrchol â Thribiwnlys Prisio Cymru. Fel a nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae materion Atebolrwydd y Dreth Gyngor wedi bod yn faterion dadleuol sydd wedi hawlio symiau sylweddol o amser y tribiwnlys, er bod nifer yr achosion yn isel o ran niferoedd. Rhagwelir y bydd unrhyw apeliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn ddadleuol ac yn faich ar amser hefyd. Yn unol â hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio cynnydd dros dro am ddwy flynedd yng ngwariant y Tribiwnlys, er mwyn caniatáu recriwtio a hyfforddi staff cyfnod penodol newydd, hyfforddi'r staff ac aelodau sy'n bodoli eisoes a chynnydd yn nifer y gwrandawiadau tribiwnlys. Fodd bynnag, ar ôl llunio rhagamcanion dechreuol a llunio'r cynlluniau cyllideb, cyhoeddodd y Gweinidogion y byddai pobl y byddai cyflwyno'r cynllun yn effeithio'n andwyol arnynt yn cael eu gwarchod gan 'rwyd diogelwch' ar ffurf taliad gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun newydd. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r gyfradd apeliadau yn ystod cyfnod yr adroddiad nesaf. Bydd adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf yn cwmpasu canlyniadau'r holl ddatblygiadau hyn.

Dadansoddiad aelodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru (ar 1 Ebrill 2012)

Age	Under 30		30-39		40-49		50-59		60-69		Over 70		Total		Billing Authority Members (max 1/3)	Of which are Chairs	Total in Office	Full Complement
Region	M	F	M	F	M	F	M	F	M	F	M	F	M	F				
East Wales	0	0	0	0	1	1	1	2	14	5	14	7	30	15	9	10	45	48
North Wales	0	0	0	0	1	1	0	5	15	3	15	3	31	12	8	10	43	46
South Wales	0	1	0	1	0	0	1	3	14	8	11	4	26	17	6	10	43	48
West Wales	0	0	0	0	3	0	3	1	12	3	16	3	34	7	13	10	41	44
Total	**0**	**1**	**0**	**1**	**5**	**2**	**5**	**11**	**55**	**19**	**56**	**17**	**121**	**51**	**36**	**40**	**172**	**186**
% of Total	0.0%	2.8%	0.0%	0.6%	2.9%	1.2%	2.9%	6.4%	32.0%	11.0%	32.6%	9.9%	70.3%	29.7%	20.9%			

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2012 - 31 Mawrth 2013

Math o apêl		Apêl Prisio'r Dreth Gyngor		Rhestr Ardrethu Annomestig 2000		Rhestr Ardrethu Annomestig 2005		Rhestr Ardrethu Annomestig 2010		Amrywiol (e.e. Atebolrwydd/Cosbau)*		Pob apêl	
	Rhanbarth		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**
Ducpwyd ymlaen	Dwyrain	63		2		572		1677		1		2315	
	Gogledd	63		0		726		2248		5		3042	
	De	85		0		940		2899		12		3936	
	Gorllewin	242	453	0	2	880	3118	2585	9409	6	24	3713	13006
Derbyniwyd	Dwyrain	353		0		1		1390		8		1752	
	Gogledd	441		0		2		1757		22		2222	
	De	315		0		2		1920		21		2258	
	Gorllewin	488	1597	0	0	1	6	1462	6529	25	76	1976	8208
Datryswyd	Dwyrain	251		2		463		1276		1		1993	
	Gogledd	327		0		643		1756		3		2729	
	De	162		0		831		2430		6		3429	
	Gorllewin	453	1193	0	2	687	2624	1973	7435	9	19	3122	11273
Penderfyn-wyd	Dwyrain	64		0		1		218		6		289	
	Gogledd	70		0		38		460		21		589	
	De	88		0		43		322		16		469	
	Gorllewin	101	323	0	0	10	92	371	1371	12	55	494	1841
Caniatawyd	Dwyrain	17		0		0		12		1		30	
	Gogledd	2		0		3		30		4		39	
	De	5		0		5		47		5		62	
	Gorllewin	6	30	0	0	0	8	26	115	1	11	33	164
Cario trosodd	Dwyrain	101		0		109		1573		2		1785	
	Gogledd	107		0		47		1789		3		1946	
	De	150		0		68		2067		11		2296	
	Gorllewin	176	534	0	0	184	408	1703	7132	10	26	2073	8100

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill – 31 Mawrth: Dadansoddi'r Mathau Amrywiol

Math o Apêl		Atebolrwydd y Dreth Gyngor		Hysbysiad Cwblhau		Hysbysiad Cosb		Cais i adolygu penderfyniad		Arall		Y cyfan	
	Tribiwnlys		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**		**Cyfanswm**
Ducpwyd ymlaen	Dwyrain	0		1		0		0		0		1	
	Gogledd	3		0		0		0		2		5	
	De	11		1		0		0		0		12	
	Gorllewin	6	20	0	2	0	0	0	0	0	2	6	24
Derbyniwyd	Dwyrain	5		2		0		1		0		8	
	Gogledd	6		6		0		9		1		22	
	De	13		4		0		4		0		21	
	Gorllewin	13	37	8	20	0	0	4	18	0	1	25	76
Datryswyd	Dwyrain	0		1		0		0		0		1	
	Gogledd	1		0		0		0		2		3	
	De	3		3		0		0		0		6	
	Gorllewin	3	7	6	10	0	0	0	0	0	2	9	19
Penderfyn-wyd*	Dwyrain	3		2		0		1		0		6	
	Gogledd	6		5		0		9		1		21	
	De	11		1		0		4		0		16	
	Gorllewin	8	28	0	8	0	0	4	18	0	1	12	55
***Caniatawyd**	Dwyrain	0		0		0		1		0		1	
	Gogledd	0		0		0		3		1		4	
	De	1		1		0		3		0		5	
	Gorllewin	1	2	0	1	0	0	0	7	0	1	1	11
Cario trosodd	Dwyrain	2		0		0		0		0		2	
	Gogledd	2		1		0		0		0		3	
	De	10		1		0		0		0		11	
	Gorllewin	8	22	2	4	0	0	0	0	0	0	10	c

Atodiad C

Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru (£)

Maes gwariant	Cronfeydd a ddyrannwyd	Gwariant	Cronfeydd sy'n weddill / gorwariant	Canran y gwariant blynyddol
Cyflogau	567000	560847	6153	99%
Pensiynau	116000	120020	-4020	103%
Is-gyfanswm	**683000**	**680867**	**2133**	**100%**
Costau swyddfeydd	90000	83509	6491	93%
Gwariant ar gyfrifiaduron	180000	172627	7373	96%
Teithio a chynhaliaeth	85000	72907	12093	86%
Cyflenwadau ac offer	35000	30764	4236	88%
Cyfleustodau	20000	16355	3645	82%
Costau cynnal eraill	50000	42642	7358	85%
Hyfforddiant	35000	29331	5669	84%
Cyngor Llywodraethu	20000	26187	-6187	131%
Is-gyfanswm	**515000**	**474323**	**40677**	**92%**
Derbyniadau		-2905		
Cyfanswm y gwariant	**1198000**	**1158095**	**42810**	**97%**

Noder

Nid yw'r gwariant Costau swyddfeydd yn cynnwys rhent, trethi a thaliadau gwasanaeth ar gyfer defnyddio Penllergaer (4ydd chwarter: Ionawr – Mawrth 2013). Cyfrifir yr atebolrwyddau hyn dan Femorandwm Telerau Meddiannu â Llywodraeth Cymru. Nid oedd y prosesau codi tâl mewnol wedi eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod cyfrifyddu'r Llywodraeth ar gyfer 2012-13. Codir y swm perthnasol yn ôl-weithredol yn 2013-14.